

## ATODLEN 2

Rheoliad 9

### TROSGLWYDDO STAFF

## RHAN 1

### 1.—(1) Os bydd—

- (a) ysgol gymunedol neu ysgol a reolir yn wirfoddol yn newid categori i ddod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir; neu
- (b) fod ysgol arbennig gymunedol yn newid categori i ddod yn ysgol arbennig sefydledig,

bydd y contract cyflogaeth rhwng person y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo a'r awdurdod addysg lleol yn effeithiol o'r dyddiad gweithredu ymlaen fel petai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a'r corff llywodraethu.

### 2. Heb ragfarnu paragraff 1—

- (a) bydd holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r awdurdod addysg lleol o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef yn cael eu trosglwyddo i'r corff llywodraethu ar y dyddiad gweithredu yn rhinwedd y paragraff hwn; a
- (b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr awdurdod addysg lleol neu mewn perthynas ag ef ynglŷn â'r contract hwnnw neu'r gweithiwr cyflogedig wedi'i wneud gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef.

3. Yn ddarostyngedig i baragraff 4, bydd paragraff 1 yn gymwys i unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi yn union cyn y dyddiad gweithredu gan yr awdurdod addysg lleol i weithio yn yr ysgol o dan sylw yn unig.

### 4. Ni fydd paragraff 1 yn gymwys—

- (a) i unrhyw berson y mae ei contract cyflogaeth yn dod i ben ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu; neu
- (b) i unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol i weithio yn yr ysgol mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd yn unig.

5. At ddibenion paragraff 3 rhaid ymdrin â pherson a benodwyd cyn y dyddiad gweithredu gan yr awdurdod addysg lleol i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu o ddyddiad ar ôl hynny fel petai'r person hwnnw wedi'i gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol yn union cyn y dyddiad gweithredu i wneud y gwaith y byddai wedi bod yn ofynnol iddo ei wneud yn yr ysgol ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw o dan ei contract cyflogaeth gyda'r awdurdod addysg lleol.

6. Nid yw paragraffau 1 a 2 yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan weithiwr cyflogedig i derfynu'r contract os bydd newid sylweddol i'w amodau gwaith yn cael ei wneud er anfantais i'r gweithiwr, ond ni fydd unrhyw hawl o'r fath yn codi dim ond am fod y Rheoliadau hyn yn peri bod yna newid cyflogwr.

## RHAN II

### 7.—(1) Os bydd—

- (a) ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn newid categori i ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir; neu
- (b) fod ysgol arbennig sefydledig yn newid categori i ddod yn ysgol arbennig gymunedol,

**Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

bydd y contract cyflogaeth rhwng person y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo a'r corff llywodraethu yn effeithiol o'r dyddiad gweithredu ymlaen fel petai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a'r awdurdod addysg lleol.

**8.** Heb ragfarnu paragraff 7—

- (a) bydd holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r corff llywodraethu o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod addysg lleol ar y dyddiad gweithredu yn rhinwedd y paragraff hwn; a
- (b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef ynglŷn â'r contract hwnnw neu'r gweithiwr cyflogedig wedi'i wneud gan yr awdurdod addysg lleol neu mewn perthynas ag ef.

**9.** Yn ddarostyngedig i baragraff 10, bydd paragraff 7 yn gymwys i unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi yn union cyn y dyddiad gweithredu gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o dan sylw.

**10.** Ni fydd paragraff 7 yn gymwys i unrhyw berson y mae ei contract cyflogaeth yn dod i ben ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu.

**11.** At ddibenion paragraff 9 rhaid ymdrin â pherson a benodwyd cyn y dyddiad gweithredu gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu o ddyddiad ar ôl hynny fel petai'r person hwnnw wedi'i gyflogi gan y corff llywodraethu yn union cyn y dyddiad gweithredu i wneud y gwaith y byddai wedi bod yn ofynnol iddo ei wneud yn yr ysgol ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw o dan ei contract cyflogaeth gyda'r corff llywodraethu.

**12.** Nid yw paragraffau 7 ac 8 yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan weithiwr cyflogedig i derfynu'r contract os bydd newid sylweddol yn cael ei wneud i'w amodau gwaith er anfantais i'r gweithiwr, ond ni fydd unrhyw hawl o'r fath yn codi dim ond am fod y Rheoliadau hyn yn peri bod yna newid cyflogwr.

## RHAN III

**13.—(1)** Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fydd ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig gyda chymeriad crefyddol yn newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gyda chymeriad crefyddol.

(2) Pan oedd gan athro neu athrawes mewn ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn rhinwedd adran 60(2) o'r Ddeddf, hawliau na roddwyd mohonynt iddo ef neu iddi hi ar neu ar ôl y dyddiad gweithredu gan adran 60 fel athro neu athrawes mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, bydd yr hawliau hynny'n parhau ganddo ef neu ganddi hi nes peidio â chael ei gyflogi fel athro neu ei chyflogi fel athrawes yn yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir.